GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Ein cyf / Our ref:

**Private & Confidential**

By Email Only:

E-bost/Email:
AllWales.Alerts@wales.nhs.uk

Dyddiad / Date: 29th March 2022

**Welsh Government – WHC 2022 010 (2)**
(Reimbursable vaccines and eligible cohorts - for the 2022_23 NHS Wales Seasonal Influenza (flu) programme)

**This alert has been cascaded to the following:**

**All Wales GP Practice Managers**
**All Wales GP OOHs**
**All Wales Sessional GPs**
**All Wales Pharmacies / Technicians**
**All Wales HB Primary Care Managers**
**All Wales HB Pharmacy & Prescribing Advisors**
**All Wales Pharmacy Committees**
**All Wales Medical Committees**
**All Wales Independent Hospitals / Hospices**

**WHC (2022) 010**

**WELSH HEALTH CIRCULAR**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Issue Date: 29 March 2022**

**STATUS: ACTION**

**CATEGORY: PUBLIC HEALTH**

**Title: Reimbursable vaccines and eligible cohorts for the 2022/23 NHS Seasonal Influenza (flu) Vaccination Programme**

**Date of Expiry / Review: Not applicable**

**For Action by:**

General practitioners
Community pharmacists
Chief Executives, Health Boards/Trusts
Immunisation Leads, Health Boards/Trusts
Immunisation Coordinators, Health Boards
Flu Leads, Trusts
Medical Directors, Health Boards/Trusts
Directors of Primary Care, Health Boards/Trusts
Nurse Executive Directors, Health Boards/Trusts
Chief Pharmacists, Health Boards/Trusts
Directors of Public Health, Health Boards/Trusts
Executive Director of Public Health, Public Health Wales
Head Vaccine Preventable Disease Programme, Public Health Wales
Community Pharmacy Wales
General Practitioner Council, Wales

**Sender:** Chief Medical Officer for Wales

**HSSG Welsh Government Contact(s):**

Health Protection Services, Department for Public Health, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

Dear Colleague

The annual flu vaccination programme is a strategic priority for Welsh Government.

In 2021-22 influenza vaccination was administered to more people than ever before as part of the annual programme in Wales. Influenza activity levels were low globally as a result of continued interventions put in place throughout the winter of 2021-22 to protect against COVID-19 (such as mask-wearing, social distancing and reduced international travel)

Uptake of the flu vaccine should be maximised again in 2022-23. We need to be prepared for higher levels of influenza activity and the possibility that it could be a more severe influenza year, with more of the population susceptible to influenza given the low levels in previous seasons. Achieving a high uptake is vital to reduce morbidity and mortality associated with influenza, and to reduce hospitalisations during a time when the NHS and social care may also be managing winter outbreaks of COVID-19.

**Priority cohorts**

Groups who are most at risk from influenza and of catching influenza and infecting other members of the community, remain the priority for next season.

The groups eligible for a flu vaccine as part of the routine national flu programme 2022-23 are:

- children aged two and three years on 31 August 2022
- children in primary school from reception class to year 6 (inclusive)
- children in secondary school from year 7 to year 11 (inclusive)*
- people aged six months to less than 50 years in clinical risk groups**
- people aged 50 years and older
- all adult prison residents
- pregnant women
- carers
- people with a learning disability
- staff in nursing homes and care homes with regular client contact
- staff providing domiciliary care.
- staff providing frontline NHS/Primary care services*
- healthcare workers (including healthcare students) with direct patient contact

*Funding for children in secondary school from year 7 to year 11 (inclusive) and for staff providing frontline NHS/Primary care services will move into health boards core budgets and become part of the routine annual flu vaccination programme in Wales.

**For the 2022-23 season there is the potential for alignment with COVID-19 risk groups. Further details will be contained in the CMO’s annual flu letter which will be published in the summer.

**Plans for another expanded season**

General practices, community pharmacies and health boards/trusts should plan to order their influenza vaccine to match the high levels of uptake achieved in 2021-22.

Guidance on ordering supplies of influenza vaccines for the 2022-2023 is below and is based on advice from the Joint Committee on Vaccination and Immunisation (JCVI).

In addition to the priority groups mentioned above the JCVI has advised that it would be **acceptable to vaccinate 50-64 year olds not in a risk category for the 2022/23 season**, however they would be the lowest priority amongst the identified risk groups. Therefore people aged **50 to 64 years** will again be eligible for NHS influenza vaccination in Wales in 2022/23. This extended cohort is included for another year due to uncertainty around likely influenza activity for the next season, with continued risk of co-circulation of influenza and COVID-19.

The JCVI has given an indication that there is likely to be an autumn booster programme for COVID-19 vaccinations. In their interim advice, in February 2022, the Committee acknowledged that winter remains the season when the threat from COVID-19 is greatest both for individuals and for health communities, especially for older people and those in clinical risk groups. As a result, opportunities for co-administration for COVID-19/ flu vaccination may arise throughout the 2022-23 season and those planning and administering vaccines should utilise these opportunities where appropriate, to help maximise vaccine uptake.

**Vaccines reimbursed as part of the NHS immunisation programme 2022-23**

The following table provides updated advice on recommended vaccines for 2021-22 which will be eligible for reimbursement.

| Those aged 65 years and over | Those aged 18 to less than 65 years (including pregnant women) | Children aged 2 to less than 18 years who are contraindicated/decline LAIV |
|---|---|---|
| • aQIV<br>• QIVr<br>• (QIVc where aQIV/QIVr is not available) | • QIVc<br>• QIVr<br>• QIVe (where QIVc or QIVr is not available) | • QIVc<br>• QIVe |

Key:
aQIV - adjuvanted quadrivalent influenza vaccine
QIVc - quadrivalent cell culture influenza vaccine
QIVr - quadrivalent recombinant influenza vaccine
QIVe - quadrivalent influenza egg-culture vaccine
For the children's programme, the guidance for 2022-23 is:

- Live attenuated quadrivalent influenza vaccine (LAIV) is the recommended vaccine for use in all eligible children aged 2-17 years of age unless contraindicated or declined due to gelatine content. LAIV is supplied centrally.
- Where an injectable vaccine is offered as an alternative to LAIV in the circumstances described, it will eligible for reimbursement.
- Children under 2 years of age are recommended quadrivalent influenza egg-culture vaccine (QIVe). Vaccine supply requirements to vaccinate children under 2 years should be arranged locally.

**Manufacturers will start to produce volumes of vaccines shortly based on the orders they have received. Please submit your order as soon as possible.**

General practices, community pharmacies and health boards/trusts should review influenza vaccine orders in light of this update to attain levels of uptake at least equivalent to those achieved in 2021-22.

There may be further policy developments to support maximum uptake across all eligible cohorts during 2022-23. Further advice will be communicated as soon as possible in the Chief Medical Officer's annual influenza letter, which will be issued in the summer.

Thank you for your continued support to increase influenza vaccination uptake and protect more people from this potentially serious vaccine preventable disease.

Yours sincerely,

**Dr Frank Atherton**
**Chief Medical Officer / Medical Director NHS Wales**

**Appendix A**

To: NHS Wales Shared Services Partnership to forward to:

All General Practitioners - please ensure this message is seen by all practice nurses and non-principals working in your practice and retain a copy in your 'locum information pack'.

All Community Pharmacies
Deputising Services

To: Health Boards and NHS Trusts:

Chief Executives
Medical Directors
Nurse Directors
Directors of Public Health
Chief Pharmacists
Directors of Primary, Community and Mental Health
Immunisation Coordinators

To: Public Health Wales:
Chief Executive
Director of Public Health Services
Consultants in Communicable Disease Control
Head Vaccine Preventable Disease Programme

Cc: GPC (Wales)
RCGP (Wales)
Community Pharmacy Wales
Royal Pharmaceutical Society Wales

**Enclosure(s):** None

**WHC (2022) 010**

**CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 29 Mawrth 2022**

**STATWS**: **GWEITHREDU**

**CATEGORI**: **IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl: Brechlynnau ad-daladwy a charfannau cymwys ar gyfer Rhaglen Frechu rhag Ffliw Tymhorol (ffliw) y GIG 2022/23**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu: Ddim yn gymwys**

**I'w weithredu gan:**

Ymarferwyr Cyffredinol
Fferyllwyr cymunedol
Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Ffliw, Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:** Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Annwyl Gydweithiwr

Mae'r rhaglen frechu flynyddol rhag y ffliw yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.

Yn 2021-22 rhoddwyd brechiad y ffliw i fwy o bobl nag erioed o'r blaen fel rhan o'r rhaglen flynyddol yng Nghymru. Roedd lefelau gweithgarwch y ffliw yn isel yn fyd-eang o ganlyniad i ymyriadau parhaus a roddwyd ar waith drwy gydol gaeaf 2021-22 i ddiogelu rhag COVID-19 (megis gwisgo masgiau, cadw pellter cymdeithasol a llai o deithio rhyngwladol)

Dylid sicrhau bod pobl yn manteisio i'r eithaf ar y brechlyn ffliw eto yn 2022-23. Rhaid inni fod yn barod ar gyfer lefelau uwch o weithgarwch y ffliw a'r posibilrwydd y gallai fod yn flwyddyn ffliw fwy difrifol, gyda mwy o'r boblogaeth yn agored i'r ffliw o gofio'r lefelau isel mewn tymhorau blaenorol. Bydd sicrhau bod nifer uchel o bobl yn cael eu brechu'n hanfodol i leihau afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r ffliw, ac i leihau derbyniadau i'r ysbyty yn ystod cyfnod pan allai'r GIG a gofal cymdeithasol fod yn rheoli brigiadau o Covid-19 hefyd yn y gaeaf.

**Carfannau sy'n flaenoriaeth**

Grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o'r ffliw ac o ddal y ffliw a heintio aelodau eraill o'r gymuned, yw'r flaenoriaeth ar gyfer y tymor nesaf.

Y grwpiau sy'n gymwys i gael brechlyn ffliw fel rhan o rhaglen ffliw genedlaethol arferol 2022-23 yw:

- plant dwy a dair oed ar 31 Awst 2022
- plant yn yr ysgol gynradd o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 (yn gynhwysol)
- plant yn yr ysgol uwchradd o flwyddyn 7 i Flwyddyn 11 (yn gynhwysol)*
- pobl chwe mis oed i lai na 50 oed mewn grwpiau risg clinigol**
- pobl 50 oed ac yn hŷn
- yr holl oedolion sy'n breswylwyr yn y carchar
- menywod beichiog
- gofalwyr
- pobl ag anabledd dysgu
- staff mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal sydd â chyswllt uniongyrchol â chleientiaid
- staff sy'n darparu gofal cartref.
- staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen y GIG/gofal sylfaenol*
- gweithwyr gofal iechyd (gan gynnwys myfyrwyr gofal iechyd) sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion

*Bydd cyllid ar gyfer plant mewn ysgolion uwchradd o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 (yn gynhwysol) ac ar gyfer staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen y GIG/gofal sylfaenol yn symud i gyllidebau craidd byrddau iechyd ac yn dod yn rhan o'r rhaglen frechu flynyddol arferol rhag y ffliw yng Nghymru.

**Ar gyfer tymor 2022-23 mae potensial i gysoni â grwpiau risg COVID-19. Ceir rhagor o fanylion yn llythyr ffliw blynyddol y Prif Swyddog Meddygol a gyhoeddir yn yr haf.

**Cynlluniau ar gyfer tymor estynedig arall**

Dylai practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol a byrddau/ymddiriedolaethau iechyd gynllunio i archebu eu brechlyn ffliw i gyfateb i'r lefelau uchel o bobl a gafodd y brechlyn yn 2021-22.

Ceir canllawiau ar archebu cyflenwadau o frechlynnau ffliw ar gyfer tymor 2022-2023 isod, ac maent yn seiliedig ar gyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI).

Yn ogystal â'r grwpiau blaenoriaeth a grybwyllir uchod, mae JCVI wedi cynghori y byddai'n **dderbyniol brechu pobl ifanc 50-64 oed nad ydynt mewn categori risg ar gyfer tymor** 2022/23. Er hynny, hwy fyddai'r flaenoriaeth isaf ymhlith y grwpiau risg a nodwyd. Felly, bydd pobl rhwng **50 a 64 oed** yn gymwys unwaith eto i gael brechiad ffliw'r GIG yng Nghymru yn 2022/23. Mae'r garfan estynedig hon wedi'i chynnwys am flwyddyn arall oherwydd ansicrwydd ynghylch gweithgarwch tebygol y ffliw ar gyfer y tymor nesaf, gyda risg barhaus y bydd y ffliw a COVID-19 yn cylchredeg ar yr un pryd.

Mae JCVI wedi nodi ei bod yn debygol y bydd rhaglen atgyfnerthu yn yr hydref ar gyfer brechiadau COVID-19. Yn eu cyngor dros dro, ym mis Chwefror 2022, cydnabu'r Pwyllgor mai'r gaeaf yw'r tymor o hyd pan fo'r bygythiad o COVID-19 ar ei uchaf i unigolion ac i gymunedau iechyd, yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai mewn grwpiau risg clinigol. O ganlyniad, gall cyfleoedd i gydweinyddu brechiad y ffliw/ COVID-19 godi drwy gydol tymor 2022-23 a dylai'r rhai sy'n cynllunio ac yn rhoi brechlynnau ddefnyddio'r cyfleoedd hyn lle y bo'n briodol, er mwyn helpu i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael y brechlyn.

**Brechlynnau sy'n cael eu had-dalu fel rhan o raglen imiwneiddio'r GIG 2022-23**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi cyngor wedi'i ddiweddaru ar frechlynnau a argymhellir ar gyfer 2021-22 a fydd yn gymwys i gael ad-daliad.

| Y rhai 65 oed ac yn hŷn | Y rhai 18 oed i lai na 65 oed (gan gynnwys menywod beichiog) | Plant 2 oed i lai na 18 sydd wedi cael eu cynghori yn erbyn/sy'n gwrthod LAIV |
|---|---|---|
| • aQIV<br>• QIVr<br>• (QIVc lle nad yw aQIV/QIVr ar gael) | • QIVc<br>• QIVr<br>• QIVe (lle nad yw QIVc neu QIVr ar gael) | • QIVc<br>• QIVe |

Allwedd:
aQIV - adjuvanted quadrivalent influenza vaccine
QIVc - quadrivalent cell culture influenza vaccine
QIVr - quadrivalent recombinant influenza vaccine
QIVe - quadrivalent influenza egg-culture vaccine
Ar gyfer y rhaglen blant, y canllawiau ar gyfer 2022-23 yw:

- Brechlyn ffliw pedwarfalent byw wedi'i wanhau (LAIV) yw'r brechlyn sy'n cael ei argymell i'w ddefnyddio gyda phob plentyn cymwys 2-17 oed, oni bai eu bod wedi cael eu cynghori yn ei erbyn neu ei wrthod oherwydd ei fod yn cynnwys gelatin. Mae LAIV yn cael ei gyflenwi'n ganolog.
- Pan gynigir brechlyn i'w chwistrellu fel dewis amgen i LAIV o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir, bydd yn gymwys i gael ad-daliad.
- Argymhellir bod plant o dan 2 oed yn cael brechlyn ffliw pedwarfalent meithriniad wyau (QIVe). Dylid trefnu gofynion cyflenwi brechlynnau i frechu plant o dan 2 oed yn lleol.

**Bydd gweithgynhyrchwyr yn dechrau cynhyrchu nifer o frechlynnau cyn hir yn seiliedig ar yr archebion y maent wedi'u cael. Byddwch cystal â chyflwyno'ch archeb cyn gynted â phosibl.**

Dylai practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol a byrddau/ymddiriedolaethau iechyd adolygu archebion brechu rhag y ffliw yng ngoleuni'r diweddariad hwn er mwyn cyrraedd lefelau'r nifer sy'n manteisio ar y brechiad sy'n cyfateb o leiaf i'r lefelau a welwyd yn 2021-22.

Efallai y bydd datblygiadau polisi pellach i annog y nifer uchaf o bobl â phosibl i gael eu brechu ar draws pob carfan gymwys yn ystod 2022-23. Caiff cyngor pellach ei gyfleu cyn gynted â phosibl yn llythyr ffliw blynyddol y Prif Swyddog Meddygol a gyhoeddir yn yr haf.

Diolch i chi am eich cymorth parhaus i gynyddu'r nifer sy'n cael y brechlyn ffliw ac i ddiogelu rhagor o bobl rhag y clefyd ataliadwy hwn a allai fod yn ddifrifol.

Yn gywir

**Dr Frank Atherton**
**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**

**Atodiad A**

At: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w anfon ymlaen at:

Pob Ymarferydd Cyffredinol - byddwch cystal â sicrhau bod y neges hon yn cael ei gweld gan bob nyrs practis a rhai nad ydynt yn benaethiaid sy'n gweithio yn eich practis a chadw copi yn eich pecyn gwybodaeth i feddygon locwm.

Pob Fferyllfa Gymunedol
Gwasanaethau Dirprwyo

At: Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

Brif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Prif Fferyllwyr
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Cydgysylltwyr Imiwneiddio

At: Iechyd Cyhoeddus Cymru:
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd:
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy

Cc: GPC (Cymru)
RCGP (Cymru)
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Cymru

**Dogfennau amgaeedig:** Dim